Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 No. 157

Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod gwasanaethau cymdeithasol" ("*social services authority*") yw awdurdod lleol at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**1**) yn gweithredu i gyflawni unrhyw swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 1A o'r Ddeddf honno;

mae i "awdurdod iechyd" yr un ystyr â "*health authority*" yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**2**)); ac

ystyr "datganiad" ("*statement*") yw datganiad o anghenion addysgol arbennig a wneir o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

(4) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas—

(a) ag ysgolion meithrin, neu

(b) â phlant o dan oedran ysgol gorfodol.

(**1**) 1970 p.42; mewnosodwyd adran 1A gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22), adran 102(3).
(**2**) 1977 p.49; diwygiwyd gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) a Deddf Iechyd 1999 (p.32).